

## RHAGARWEINIAD

Mae dŵr pibell yn adnodd drud. Rydym yn ffodus iawn o gael cyflenwad helaeth o ddŵr glaw yng Nghymru'n gyffredinol. Mae dŵr glaw yn ddelfrydol i ddyfrhau planhigion: o gymharu, nid yw dŵr o ddyfrdwl neu ddŵr pibell fel rheol yn ddelfrydol i ddyfrhau planhigion. Felly mae'n syniad da casglu a defnyddio dŵr glaw.

Ond sut ydych yn gwybod faint o ddŵr sydd ei angen arnoch a faint o ddŵr gallwch ei gasglu o'ch toeau?

## AMCANGYFRIF FAINT O DDŴR RYDYCH YN EI DDEFNYDDIO

Os oes gennych fesurydd dŵr, mae'n hawdd gwybod faint o ddŵr rydych yn ei ddefnyddio. Ond hyd yn oed wedyn, mae'n werth gwneud yn siŵr bod y ffigur ar y mesurydd yn gywir trwy wneud amcangyfrif o'r dŵr rydych yn ei ddefnyddio. Gellir colli miloedd o litrau pob dydd os oes pibell danddaearol yn colli dŵr. Yn aml ni fydd unrhyw arwydd ar y wyneb bod pibell yn colli dŵr.

Os ydych yn dechrau o'r newydd a ddim yn gwybod faint o ddŵr rydych yn ei ddefnyddio gallwch amcangyfrif 8mm am ddyfrhau. Felly, trwy luosogi'r arwynebedd lle rydych yn tyfu ac yn dyfrhau planhigion, gallwch amcangyfrif cyfanswm y dŵr byddwch yn ei ddefnyddio pob diwrnod.

Os ydych eisoes yn defnyddio system ddyfrhau, gallwch gasglu dŵr o'r system honno i gynhwysydd o arwynebedd penodol ac yna lluosu hwnnw i'ch arwynebedd dyfrhau llawn. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd gan rannau gwahanol raddfeydd dyfrhau gwahanol, felly bydd rhaid i chi gasglu dŵr o bob rhan.

## AMCANGYFRIF FAINT O DDŴR GLAW GALLWCH EI GASGLU

I amcangyfrif faint o ddŵr glaw gallwch ei gasglu, rydych angen gwybod dau beth: yr arwynebedd llorweddol lle caiff y glaw ei gasglu a'r glawiad blynyddol.

Cofiwch, os yw'r man lle cesglir y dŵr ar lethr (e.e. to) yr arwynebedd **llorweddol** sydd ei angen arnoch, nid arwynebedd y lethr.

Mae'r ffigurau glawiad blynyddol ar gael gan y Swyddfa Dywydd. Ceir data hanesyddol o'i safleoedd yng Nghymru a'r gororau ar-lein yn <http://www.metoffice.gov.uk/weather/uk/climate.html>. Mae'r

Swyddfa Dywydd hefyd yn darparu'r cyfartaledd ar gyfer y safleoedd hyn (a safleoedd eraill).

**Tabl 1: Cyfartaledd glawiad blynyddol 1971 – 2000 mewn lleoliadau dethol**

Lleoliad yr orsaf dywydd	Cyfartaledd glawiad blynyddol (mm) 1971 - 2000
Y Fali, Ynys Môn	827.9
Parc Bute, Caerdydd	1111.7
Trawsgoed	1213.9
Aberporth	870.2
Ross on Wye	706.2
Shawbury	655.7

Trwy luosi'r arwynebedd lle byddwch yn dal y glaw gyda chyfanswm y glawiad blynyddol, cewch amcangyfrif o faint o ddŵr y gallwch ei gasglu bob blwyddyn.

Er enghraifft, os oes gennych 150m<sup>2</sup> o arwynebedd llorweddol ar y to a chyfartaledd glawiad blynyddol o 1,000 mm, yna'r cyfartaledd glawiad blynyddol byddai'n disgyn ar y to fyddai 150m<sup>3</sup> (150m<sup>2</sup> x 1m).

**Ffynhonnell:** [www.metoffice.gov.uk](http://www.metoffice.gov.uk)

